**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Helgard Krause
Prif Weithredwr
Cyngor Llyfrau Cymru

22 Ebrill 2024

## Cyfle tendro newydd ar gyfer cylchgrawn newydd yng Nghymru

Annwyl Helgard

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn y cyfle tendro a gyhoeddwyd ar gyfer cylchgrawn newydd gan Gyngor Llyfrau Cymru. Yn dilyn ein gohebiaeth flaenorol gyda chi, byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu:

1. Pa ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru gyda'r sector wrth ddylunio'r tendr ar gyfer cylchgrawn llenyddol Saesneg;

2. Pa broses apelio annibynnol sydd ar waith ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus;

Yn eich llythyr atom ym mis Rhagfyr 2023, fe wnaethoch hefyd nodi bod strategaeth bum mlynedd y Cyngor Llyfrau yn gofyn ichi “archwilio a herio pŵer y sawl sydd mewn sefyllfa o ddylanwad”. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymhelaethu ar yr hyn y mae hyn yn ei olygu yn ymarferol, ac amlinellu i ba raddau y mae'n rhoi'r rhai sydd eisoes wedi derbyn grantiau dan anfantais.

Yn olaf, byddem yn ddiolchgar iawn o gael amlinelliad gennych o weledigaeth Cyngor Llyfrau Cymru ar gyfer y sector cylchgronau Saesneg, gan gynnwys copi o'r adolygiad mewnol i gylchgronau Saesneg a gynhaliwyd yn 2022.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon ymateb atom erbyn 8 Mai 2024 i ganiatáu inni ei ystyried yn ein cyfarfod ffurfiol nesaf.

Yn gywir

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.